# Xeomin (niwrodocsin botwlinwm math A) ar gyfer trin sialorrhoea

9 Hydref 2019

Mae xeomin (niwrodocsin botwlinwm math A) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer sialorrhoea cronig (glafoerio a dreflan yn ormodol) a achosir gan gyflyrau niwrolegol mewn oedolion.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Parkinson's UK, 0808 800 0303
- Cymdeithas MS, 0808 800 8000
- Multiple Sclerosis Trust, 0800 032 3839
- Cymdeithas Strôc, 0303 3033 100
- Different Strokes, 0345 130 7172

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3556-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.